# Cyflawniad academaidd disgyblion 4 i 14 oed mewn pynciau craidd 2019

7 Awst 2019
SFR 61/2019

% y disgyblion a gyflawnodd Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen neu Ddangosydd Pynciau Craidd yn **2019**

| Cyfnod Sylfaen | Cyfnod Allweddol 2 | Cyfnod Allweddol 3 |
|---|---|---|
| **80.0 %** | **87.8 %** | **86.2 %** |

## Cymhariaeth gyda 2018

Roedd y canran o ddisgyblion a gyflawnodd o leiaf y lefel disgwyliedig yn is na 2018 ym mhob pwnc craidd / maes dysgu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a'r ddau Gyfnod Allweddol.

Yn dilyn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg yng Ngorffennaf 2018, ac ymgynghoriad a orffennodd yn Ionawr 2018, ni fyddwn bellach yn cyhoeddi data'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ar lefel ysgol, awdurdod na chonsortia. Mae hwn yn gam sylweddol i ffwrdd o gasglu gwybodaeth am berfformiad pobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Gallai canlyniadau eleni fod yn adlewyrchiad o'r newidiadau hyn, lle mae prif bwrpas asesiadau athrawon wedi dechrau symud yn ôl i ddysgwyr unigol ac i ffwrdd o ddwyn ysgolion i gyfrif.

## Gwahaniaeth rhwng y rhywiau

Perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob pwnc craidd/maes dysgu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd y ddau Gyfnod Allweddol.

Bu cynnydd yn y bwlch rhwng merched a bechgyn yn rhan fwyaf o bynciau/maes dysgu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd y ddau Gyfnod Allweddol.

Ar gyfer asesiadau dechreuol mae cynnydd datblygiadol merched a bechgyn yn amrywio fesul maes dysgu.

## Am y datganiad

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf yn rhoi gwybodaeth am asesiadau athrawon o feysydd dysgu gorfodol/pynciau craidd mewn ysgolion yng Nghymru.

Am y tro cyntaf mae'r datganiad hwn yn cynnwys asesiadau dechreuol. Cynhelir yr asesiadau hyn wrth i'r plentyn ddechrau mewn Dosbarth Derbyn yn 4 oed. Yn flaenorol, roedd hwn wedi'i gyhoeddi ar wahân

Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn berthnasol I blant 7 oed, Cyfnod Allweddol 2 i blant 11 oed a Chyfnod Allweddol 3 i blant 14 oed.

## Yn y datganiad hwn

Asesiadau dechreuol 2
Cyfnod Sylfaen 4
Cyfnod Allweddol 2 7
Cyfnod Allweddol 3 11
Nodiadau 13

Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 0300 025 5050 ~ ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru


## Adran 1: Asesiadau dechreuol o blant mewn dosbarthiadau derbyn yn ysgolion

Ers 2016, mae plant yng Nghymru wedi'u hasesu drwy Broffil y Cyfnod Sylfaen, yn ystod eu chwe wythnos gyntaf ar ôl dechrau mewn ysgol gynradd (Dosbarth Derbyn). Defnyddir yr asesiadau hyn i bennu cam datblygu a diddordebau'r plentyn yn ôl Proffil a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Ceir gwybodaeth ynglŷn a phob maes dysgu (PSD, LCE, LCW, MD, PD) yn y dolen uchod. Cynhelir y rhan fwyaf o asesiadau pan fydd y plentyn yn cyrraedd dosbarth derbyn yn 4 oed, er bod ysgolion yn cael eu hannog i asesu'r plentyn wrth iddynt fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen, pa bynnag oedran cynharach a allai fod.

Mae'r data yn adlewyrchu'r ystod eang o aeddfedrwydd datblygiadol a ddisgwylir ar gyfer yr oedran hwnnw, sydd o fewn yr ystod safonol ar gyfer plant wrth ddechrau yn yr ysgol - yn enwedig o ystyried oed amrywiol plant sy'n dechrau'r ysgol. Y disgwyliad cyffredinol yw bod rhan fwyaf o blant 4 oed yn cael eu hasesu yng ngham datblygiad 2, gyda niferoedd arwyddocaol yng ngham 1 a 3 ym mhob maes dysgu.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys un o'r dangosyddion cenedlaethol a ddefnyddir at ddibenion mesur y cynnydd tuag at gyflawni 7 nod llesiant Cymru. Dangosydd cenedlaethol 6 yw hwn, sy'n mesur datblygiad plant ifanc, ac rydym yn cadw golwg ar y cynnydd drwy ddefnyddio maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

**Ffigur 1: Canran y disgyblion ym mhob cam o ddatglygiad yn yr asesiadau dechreuol, 2019 (a)**




(a) Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt. Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso.

PSD = Datblygiad Personol a Chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

LCE = Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Saesneg

LCW = Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg

MD = Datblygiad Mathemateg

PD = Datblygiad Corfforol

- Mae tua 6 o bob 10 disgybl 4 oed wedi cyrraedd cam ddatblygiad mewn mathemateg ac iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg a fyddai'n gyson â'u hoed yn ôl y fframwaith, neu'n well (cam 2 neu'n uwch), ac mae tua 9 o bob 10 disgybl o fewn un cam i'r datblygiad sy'n gyson â'u hoed.
- Mae'r sefyllfa o ran iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn wahanol. Mae 1 o bob 3 disgybl wedi cyrraedd cam datblygiad sy'n gyson â'u hoed, neu'n well. Gellir egluro hyn drwy'r nifer o ddisgyblion o gartrefi lle nad ydynt yn siarad Cymraeg y mae eu rhieni yn dewis eu cofrestru mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. I roi hyn mewn cyd-destun, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae tua 82 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r deilliant a ddisgwylir ar gyfer y maes dysgu hwn.
- O ran datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, mae tua 7 o bob 10 disgybl 4 oed wedi cyrraedd cam datblygiad yn y maes dysgu hwn a fyddai'n gyson â'u hoed yn ôl y fframwaith, neu'n well, ac mae tua 9 o bob 10 disgybl o fewn un cam i'r datblygiad sy'n gyson â'u hoed.

**Tabl 1: Canran y disgyblion ym mhob cam o ddatblygiad yn yr asesiadau dechreuol, yn ôl rhyw, 2019 (a)**

| Maes Dysgu | | D / N | O dan 1 | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (PSD) | Bechgyn | 0.7 | 11.2 | 24.4 | 47.8 | 14.9 | 0.8 |
| | Merched | 0.4 | 6.2 | 17.0 | 52.1 | 23.1 | 1.3 |
| | Disgyblion | 0.6 | 8.8 | 20.8 | 49.9 | 18.9 | 1.1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE) | Bechgyn | 0.8 | 14.5 | 32.1 | 45.4 | 6.8 | 0.5 |
| | Merched | 0.4 | 7.9 | 26.6 | 54.4 | 10.1 | 0.6 |
| | Disgyblion | 0.6 | 11.3 | 29.4 | 49.7 | 8.4 | 0.5 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW) | Bechgyn | 0.5 | 32.7 | 37.1 | 25.5 | 3.8 | 0.4 |
| | Merched | 0.5 | 24.6 | 35.9 | 33.4 | 5.3 | 0.4 |
| | Disgyblion | 0.5 | 28.6 | 36.5 | 29.4 | 4.5 | 0.4 |
| Datblygiad mathemategol (MD) | Bechgyn | 0.8 | 11.6 | 32.5 | 48.0 | 6.8 | 0.3 |
| | Merched | 0.5 | 7.8 | 29.6 | 53.9 | 8.0 | 0.3 |
| | Disgyblion | 0.7 | 9.7 | 31.1 | 50.9 | 7.4 | 0.3 |
| Datblygiad corfforol (PD) | Bechgyn | 0.7 | 7.6 | 22.7 | 50.6 | 17.4 | 1.0 |
| | Merched | 0.4 | 3.3 | 13.6 | 50.1 | 30.6 | 1.9 |
| | Disgyblion | 0.6 | 5.5 | 18.3 | 50.4 | 23.8 | 1.4 |


a) Mae D (datgymhwyso) yn cynrychioli disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o dan adrannau 113 - 116 o Ddeddf Addysg 2002, neu ddisgyblion na allai athrawon ddarparu asesiad ar eu cyfer.Mae N yn cynrychioli disgyblion na ddyfarnwyd lefel iddynt am resymau heblaw datgymhwyso.

- Ar gyfer pob maes dysgu mae patrwm gwahanol o ran cynnydd datblygiadol rhwng bechgyn a merched gan eu bod yn aeddfedu ar gyflymdra gwahanol ac, ar gyfartaledd, mae merched wedi cyrraedd cam datblygiad uwch. Mae hyn yn gyson ag astudiaethau eraill megis Astudiaeth Carfan y Mileniwm a data'r Rhestr Sgiliau Tyfu a gasglwyd o dan raglen Dechrau'n Deg.

## Adran 2: Y Cyfnod Sylfaen


Yn dilyn y newidiadau i Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen, dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi. Mae’r Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd o leiaf deilliant 5 mewn “Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol” (PSD), “Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg” (LCE) neu “Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg” (LCW) ac “Datblygiad mathemategol” (MDT) gyda'i gilydd.

**Ffigur 2: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DCS, 2012-2019**




- Mae’r data tu ôl i’r ffigurau yma ar gael fel tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru
- O 2012 (pan gyflwynwyd y DCS) i 2017, roedd cynnydd yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DCS
- Rhwng 2017 and 2018 bu addasiad yn Neiliannau y Cyfnod Sylfaen ,yn erbyn rhain yr ydym yn mesur y DCS. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DCS ers 2018. Yn gyfredinol, dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn 2018 a hwyrach gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi.
- Roedd y canran a gyflawnodd y DCS yn 80.0 y cant yn 2019, i lawr o 82.6 y cant yn 2018. Gweler y nodyn ar y tudalen blaen ar gyfer y cyd-destun 2019.

**Ffigur 3: Canran y disgyblion a gyflawnodd ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen, yn ôl deilliant, 2019 (a)**





(a) Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt. Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso.

Mae'r data tu ôl i'r ffigurau yma ar gael fel tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a'r lefelau disgwyliedig ar dudalen 16.

- Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig o 5 neu'n uwch ym mhob maes dysgu, o 92.2 y cant yn "Natblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol" i 83.0 y cant yn "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg)."
- Datblygiad personol a chymdeithasol, llesiant ac amrywiaeth ddiwylliannol", cyflawnodd 57.4 y cant o ddisgyblion Deilliant 6 neu'n uwch. Yn y tri maes dysgu arall, cyflawnodd tua thraean o ddisgyblion Deilliant 6 neu'n uwch.

**Ffigur 4: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DCS, yn ôl rhyw, 2012-2019**




84.5% o ferched yn cyflawni y DCS yn 2019

75.7% o fechgyn yn cyflawni y DCS yn 2019

Mae'r data tu ôl i'r ffigurau yma ar gael fel tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru.

- Yn dilyn y newidiadau i Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen, mae'r canran o ferched a gyflawnodd y DCS yn 8.5 pwynt canran yn uwch na'r bechgyn yn 2018 a 8.8 pwynt canran yn uwch yn 2019.
- Yn dilyn y newidiadau i Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen, dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi.
- Mae'r canran o ferched a gyflawnodd y DCS (ar sail y fframwaith 2008) yn gyson yn uwch na bechgyn rhwng 2012 a 2017 a mae'r tuedd hyn wedi parhau ers y newidiadau I Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen.

**Tabl 2: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen pob disgybl, yn ôl rhyw, 2019**

Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 (y deilliant disgwyliedig) mewn asesiadau athrawon


| | Bechgyn | | Merched | | Disgyblion | | Gwahaniaeth pwynt % Merched / Bechgyn | Gwahaniaeth pwynt % Merched / Bechgyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maes dysgu | 2018 | 2019 | 2018 | 2019 | 2018 | 2019 | 2018 | 2019 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (PSD) | 90.6 | 89.2 | 96.3 | 95.4 | 93.4 | 92.2 | 5.7 | 6.3 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE) | 80.0 | 77.6 | 88.3 | 86.7 | 84.0 | 82.0 | 8.3 | 9.1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW) | 81.5 | 78.0 | 90.4 | 86.3 | 86.1 | 82.2 | 8.9 | 8.3 |
| Datblygiad mathemategol (MDT) | 84.2 | 82.5 | 89.0 | 87.1 | 86.6 | 84.7 | 4.8 | 4.6 |
| Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) | 78.4 | 75.7 | 86.9 | 84.5 | 82.6 | 80.0 | 8.5 | 8.8 |

- Mae perfformiad marched yn dal yn uwch na bechgyn ym mhob maes dysgu.
- Roedd y bwlch mwyaf yn "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg" (9.1 pwynt canran yn 2019). Roedd y bwlch lleiaf yn "Datblygiad mathemategol" (4.6 pwynt canran)

## Adran 3: Cyfnod Allweddol 2

Mae’r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yn CA2 yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd ar ddiwedd CA2, pan yn 11 oed.

**Ffigur 5: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DPC Cyfnod Allweddol 2, 1999-2019**




Mae’r data tu ôl i’r ffigurau yma ar gael fel tablau rhyngweithiol a data agored ar [StatsCymru](StatsCymru).





**83.8%** cyflawnodd lefel 4 neu’n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Saesneg neu Cymraeg) a Mathemateg yn 2019 2019Cymraeg) a Mathemateg yn 2019.




**83.6%** cyflawnodd lefel 4 neu’n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Saesneg neu Cymraeg), Mathemateg a Gwyddoniaeth yn 2019.

- Cyflawnodd 87.8 y cant o ddisgyblion y DPC yn 2019, i lawr o 89.5 y cant yn 2018. Dyma’r tro cyntaf bu gostyngiad ers 2007. Gweler y nodyn ar y tudalen blaen ar gyfer cyd-destun 2019 Roedd y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DPC yn 61.1y cant yn 1999 pan gyflwynwyd y DPC.
- Ers 2018 mae’r canran a gyflawnodd Lefel 4 neu’n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg, ac yn Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi gostwng 1.3 pwynt canran.
- Mae’r canran a gyflawnodd Lefel 4 neu’n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg, a Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi cynyddu pob blwyddyn rhwng 2007 a 2018.

## Ffigur 6: Canran y disgyblion a gyflawnodd lefelau CA2, yn ôl pwnc, 2019 (a)




(a) Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt. Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso.

## Tabl 3: Canlyniadau asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 2 pob disgybl, yn ôl lefel, 2019 (a) (d)


| | Canran | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | DCC 1, 2 | Lefel | | | | | | Lefel 4 | Lefel 5 | Nifer y |
| Pwnc | D | N | a 3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6+ | neu uwch (b) | neu uwch | disgyblion |
| **Saesneg** | **0.4** | **0.3** | **0.4** | **0.5** | **1.6** | **7.1** | **45.2** | **42.9** | **1.6** | **89.7** | **44.5** | **35,946** |
| Llafar | 0.4 | 0.2 | 0.5 | 0.5 | 1.4 | 6.8 | 44.8 | 43.6 | 1.8 | 90.2 | 45.4 | 35,946 |
| Darllen | 0.4 | 0.3 | 0.4 | 0.5 | 1.6 | 7.2 | 43.0 | 44.7 | 2.0 | 89.6 | 46.7 | 35,946 |
| Ysgrifennu | 0.4 | 0.3 | 0.4 | 0.6 | 2.0 | 11.2 | 48.6 | 35.2 | 1.4 | 85.2 | 36.5 | 35,946 |
| **Cymraeg** | **0.1** | **0.1** | **0.1** | **0.5** | **2.0** | **8.8** | **50.2** | **37.1** | **1.2** | **88.4** | **38.3** | **7,714** |
| Llafar | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.5 | 1.8 | 7.6 | 49.2 | 39.2 | 1.5 | 89.8 | 40.6 | 7,714 |
| Darllen | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.5 | 2.1 | 9.4 | 48.2 | 38.0 | 1.5 | 87.7 | 39.5 | 7,714 |
| Ysgrifennu | 0.1 | 0.1 | 0.2 | 0.6 | 2.4 | 12.6 | 53.1 | 30.2 | 0.9 | 84.1 | 31.0 | 7,714 |
| **Mathemateg** | **0.3** | **0.3** | **0.4** | **0.4** | **1.3** | **6.6** | **44.9** | **43.5** | **2.2** | **90.7** | **45.8** | **35,946** |
| **Gwyddoniaeth** | **0.4** | **0.3** | **0.4** | **0.5** | **1.3** | **6.4** | **46.8** | **43.8** | **0.2** | **90.8** | **44.0** | **35,946** |
| **Dangosydd Pynciau Craidd (c)** | . | . | . | . | . | . | . | . | . | **87.8** | . | **35,946** |
| **Cyrraedd lefel 4+ mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg** | . | . | . | . | . | . | . | . | . | **83.8** | . | **35,946** |
| **Cyrraedd lefel 4+ mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth** | . | . | . | . | . | . | . | . | . | **83.6** | . | **35,946** |

(a) Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt. Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso. Mae Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn disgrifio cyflawniad o dan Lefel 1.
(b) Y disgwyl yw y bydd mwyafrif o ddisgyblion 11 oed yn cyrraedd Lefel 4.
(c) Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd Lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
(d) Mae "." yn golygu fod y data ddim yn berthnasol.

- Cyflawnodd y mwyafrif o ddisgyblion o leiaf y lefel disgwyliedig (Lefel 4) neu'n uwch ym mhob pwnc, o 90.8 y cant yng Ngwyddoniaeth i 88.4 y cant yng Nghymraeg yn 2019.

- Cyflawnodd canran uwch o ddisgyblion o leiaf Lefel 4 yn llefaru a darllen nac yn ysgrifennu.
- Amrywiodd y canran a gyflawnodd lefel 5 neu uwch o 45.8 y cant ym Mathemateg 38.3 y cant yng Nghymraeg.

**Ffigur 7: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DPC Cyfnod Allweddol 2, yn ôl rhyw, 1999-2019**




Mae'r data tu ôl i'r ffigurau yma ar gael fel tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru.

- 2019 oedd y flwyddyn gyntaf ers 2007 lle bu gostyngiad yn y canran o ferched a gyflawnodd y DPC. Mae'r canran o fechgyn a gyflawnodd y DPC wedi gostwng yn y ddwy flynedd diwethaf, ond cyn hynny roedd wedi cynyddu ym mhob blwyddyn ers 2006.
- Mae'r canran y marched a gyflawnodd y DPC wedi bod yn uwch na bechgyn ym mhob blwyddyn ers 1999 pan gyflwynwyd y mesur.
- Mae'r bwlch rhwng bechgyn a marched wedi cynyddu yn 2019 (i 6.5 pwynt canran). Hyd at 2017 pan oedd y bwlch yn 4.5 pwynt canran, roedd bechgyn wedi cau'r bwlch i lawr o 9.5 pwynt canran yn 2000.

**Tabl 4: Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 pob disgybl, yn ôl rhyw, 2018-2019**

Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn asesiadau athrawon

| | Bechgyn | | Merched | | Disgyblion | | Gwahaniaeth pwynt % Merched / Bechgyn | Gwahaniaeth pwynt % Merched / Bechgyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | 2018 | 2019 | 2018 | 2019 | 2018 | 2019 | 2018 | 2019 |
| Saesneg | 88.3 | 86.5 | 94.0 | 93.1 | 91.1 | 89.7 | 5.7 | 6.6 |
| Cymraeg | 86.4 | 84.2 | 92.9 | 92.5 | 89.7 | 88.4 | 6.5 | 8.3 |
| Mathemateg | 90.3 | 88.8 | 93.4 | 92.7 | 91.8 | 90.7 | 3.0 | 3.9 |
| Gwyddoniaeth | 90.1 | 88.5 | 94.1 | 93.2 | 92.1 | 90.8 | 4.1 | 4.7 |
| Dangosydd Pynciau Craidd | **87.0** | **84.7** | **92.1** | **91.2** | **89.5** | **87.8** | **5.2** | **6.5** |
| Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg | 80.9 | 79.0 | 89.5 | 88.8 | 85.1 | 83.8 | 8.6 | 9.9 |
| Darllen, Ysgrifennu, Maths a Gwyddoniaeth | 80.8 | 78.9 | 89.4 | 88.6 | 85.0 | 83.6 | 8.6 | 9.8 |

## Canlyniadau ar gyfer pob disgybl

- Bu gostyngiad ym mhob pwnc yn y canran o ddisgyblion a gyflawnodd o leiaf y lefel disgwyliedig yn Gyfnod Allweddol 2 rhwng 2018 a 2019.
- Roedd y gostyngiad ychydig dros 1 y cant ym mhob pwnc. Ym Mathemateg roedd y cynnydd yn 1.1 pwynt canran, 1.2 pwynt canran yng Nghymraeg a Gwyddoniaeth a 1.4 pwynt canran yn Saesneg.


## Canlyniadau yn ôl rhyw

- Rhwng 2018 a 2019 bu gostyngiad ym mhob pwnc yn y canran o ferched a bechgyn a gyflawnodd y lefel disgwyliedig.
- Bu cynnydd yn y bwlch rhwng bechgyn a merched o 2018 i 2019 ym mhob pwnc.
- Mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched yn y canran a gyflawnodd y o leiaf y lefel disgwyliedig neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg, a Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi cynyddu i bron 10 pwynt canran yn 2019.

## Adran 4: Cyfnod Allweddol 3

Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, pan yn 14 oed.

**Ffigur 8: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DPC Cyfnod Allweddol 3, 1999-2019**




Mae'r data tu ôl i'r ffigurau yma ar gael fel tablau rhyngweithiol a data agored ar [StatsCymru]





**82.2%** cyflawnodd lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Saesneg neu Cymraeg) a Mathemateg yn 2019.




**81.4%** cyflawnodd lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Saesneg neu Cymraeg), Mathemateg a Gwyddoniaeth yn 2019.

- Mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DPC wedi gostwng am y tro cyntaf ers 2007 I 86.2 y cant. Gweler y nodyn ar y tudalen blaen ar gyfer [cyd-destun 2019]. Roedd y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y DPC yn 47.5 y cant yn 1999 pan gyflwynwyd y DPC.
- Yn 2019 roedd gostyngiad o 0.7 y cant yn y canran a gyflawnodd Lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a gostyngiad o 1.0 pwynt canran ym Mathemateg, ac yn Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Cyn 2019 roedd y canran a gyflawnodd Lefel 5 neu'n uwch mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2009, a roedd Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2008.

## Ffigur 9: Canran y disgyblion a gyflawnodd lefelau CA3, yn ôl pwnc, 2019




(a) Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt. Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso.

## Tabl 5: Canlyniadau asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 2 pob disgybl, yn ôl lefel, 2019 (d)


| | Canran | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | DCC 1,2 | Lefel | | | | | | | | Lefel 5 | Lefel 6 | Nifer y |
| Pwnc | D | N | a 3 (a) | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8+ | neu uwch (b) | neu uwch | disgyblion |
| **Saesneg** | **0.3** | **0.3** | **0.3** | **0.3** | **0.6** | **1.7** | **6.3** | **29.5** | **38.0** | **20.5** | **2.1** | **90.1** | **60.6** | **32,777** |
| Llafar | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.6 | 1.6 | 6.9 | 28.6 | 37.7 | 20.8 | 2.7 | 89.6 | 61.1 | 32,777 |
| Darllen | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.6 | 1.8 | 7.4 | 29.1 | 37.6 | 19.9 | 2.2 | 88.9 | 59.8 | 32,777 |
| Ysgrifennu | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.7 | 2.2 | 10.7 | 32.6 | 34.6 | 16.1 | 1.9 | 85.2 | 52.6 | 32,777 |
| **Cymraeg** | **0.1** | **0.1** | **-** | **0.1** | **0.2** | **1.2** | **6.6** | **30.3** | **42.4** | **17.4** | **1.6** | **91.6** | **61.3** | **6,068** |
| Llafar | 0.2 | 0.1 | - | 0.1 | 0.3 | 0.9 | 6.6 | 29.5 | 41.6 | 19.1 | 1.7 | 91.9 | 62.4 | 6,068 |
| Darllen | 0.1 | 0.1 | - | 0.1 | 0.2 | 1.3 | 7.8 | 29.5 | 41.3 | 17.5 | 2.0 | 90.3 | 60.8 | 6,068 |
| Ysgrifennu | 0.1 | 0.1 | - | 0.1 | 0.2 | 1.6 | 10.6 | 36.2 | 36.8 | 12.7 | 1.5 | 87.2 | 51.0 | 6,068 |
| **Mathemateg** | **0.3** | **0.3** | **0.3** | **0.3** | **0.4** | **1.7** | **6.2** | **24.9** | **34.0** | **26.0** | **5.4** | **90.3** | **65.4** | **32,777** |
| **Gwyddoniaeth** | **0.3** | **0.4** | **0.4** | **0.3** | **0.4** | **1.0** | **4.8** | **26.2** | **38.5** | **25.6** | **2.1** | **92.4** | **66.1** | **32,777** |
| **Dangosydd Pynciau Craidd (c)** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **86.2** | **.** | **32,777** |
| **Cyrraedd lefel 5+ mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | | | **.** | **0.0** | **.** | **.** |
| **Cyrraedd lefel 5+ mewn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | **.** | | | **.** | | **.** | **.** |

(a) Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113 - 116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt. Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso. Mae Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn disgrifio cyflawniad o dan Lefel 1.
(b) Y disgwyl yw y bydd mwyafrif o ddisgyblion 14 oed yn cyrraedd Lefel 5.
(c) Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
(d) Mae "." yn golygu fod y data ddim yn berthnasol.

- Mae mwy na 9 allan o bob 10 disgybl yn cyflawni o leiaf y lefel disgwyliedig (lefel 5) neu'n uwch ym mhob pwnc yn 2019, o 92.4 y cant yng Ngwyddoniaeth i 90.1 y cant yn Saesneg.

- Mae canran uwch yn cyflawni o leiaf lefel 5 yn llafaru a darllen nac yn ysgrifennu.
- Ym mob pwnc mae mwy na hanner o ddisgyblion yn cyflawni o Leiaf lefel 6 neu'n uwch.

**Ffigur 10: Canran y disgyblion a gyflawnodd y DPC Cyfnod Allweddol 3, yn ôl rhyw, 1999-2019**




90.1% o ferched yn cyflawni y DPC yn 21019.

82.4% o fechgyn yn cyflawni y DPC yn 2019.

Mae'r data tu ôl i'r ffigurau yma ar gael fel tablau rhyngweithiol a data agored ar StatsCymru.

- Mae'r canran o ferched a bechgyn a gyflawnodd y DPC wedi gostwng am y tro cyntaf ers 2007.
- Mae'r canran y merched a gyflawnodd y DPC wedi bod yn gyson yn uwch na bechgyn ers 1999 pan gyflwynwyd y mesur.
- Mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched wedi aros yn eithaf cyson rhwng 7.1 a 7.7 pwynt canran dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd y blwch yn 77 pwynt canran yn 2019. Y bwlch lleiaf ers i'r mesur gael ei gyflwyno oedd 7.1 pwynt canran yn 2018. Yn gyffredinol, mae'r bwlch yn llai dros y pum mlynedd diwethaf na'r pymtheg mlynedd cyn hynny.

**Tabl 6: Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 pob disgybl, yn ôl rhyw, 2018-2019**
Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn asesiadau athrawon

| Pwnc | Bechgyn 2018 | Bechgyn 2019 | Merched 2018 | Merched 2019 | Disgyblion 2018 | Disgyblion 2019 | Gwahaniaeth pwynt % Merched / Bechgyn 2018 | Gwahaniaeth pwynt % Merched / Bechgyn 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | 87.8 | 86.5 | 94.8 | 93.9 | 91.2 | 90.1 | 7.0 | 7.5 |
| Cymraeg | 91.0 | 87.2 | 96.6 | 95.9 | 93.8 | 91.6 | 5.6 | 8.6 |
| Mathemateg | 89.6 | 88.3 | 93.7 | 92.5 | 91.6 | 90.3 | 4.2 | 4.2 |
| Gwyddoniaeth | 91.5 | 90.0 | 96.1 | 94.9 | 93.7 | 92.4 | 4.6 | 4.8 |
| Dangosydd Pynciau Craidd | **84.7** | **82.4** | **91.7** | **90.1** | **88.1** | **86.2** | **7.1** | **7.7** |
| Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg | 77.5 | 76.8 | 88.7 | 87.8 | 82.9 | 82.2 | 11.2 | 11.0 |
| Darllen, Ysgrifennu, Maths a Gwyddoniaeth | 76.8 | 75.9 | 88.2 | 87.1 | 82.4 | 81.4 | 11.4 | 11.2 |

## Canlyniadau ar gyfer pob disgybl yn Cyfnod Allweddol 3

- Mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd o leiaf y lefel disgwyliedig wedi gostwng ym mhob pwnc o 2018 i 2019. Cyn hynny roedd wedi cynyddu ym mhob pwnc ers 2008.
- Roedd y gostyngiad mwyaf yng Nghymraeg (2,2 pwynt canran) rhwng 2018 a 2019. Roedd y cynnydd lleiaf yn Saesneg (1.1 pwynt canran).

## Canlyniadau yn ôl rhyw

- Gostyngodd y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel disgwyliedig ym mhob pwnc rhwng 2018 a 2019.
- Roedd y bwlch rhwng merched a bechgyn yn fwyaf yng Nghymraeg (8.6 pwynt canran) a lleiaf ym Mathemateg (4.2 pwynt canran).
- Mae'r bwlch rhwng merched a bechgyn yn y canran a gyflawnodd o leiaf y lefel disgwyliedig yn Darllen ac Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg) a Mathemateg a Darllen Ysgrifennu (Cymraeg neu Saesneg), Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi gostwng i 11.0 a 11.2 pwynt canran yn y drefn honno yn 2019.

## Nodiadau

### Y cyd-destun

#### Materion polisi/gweithredol

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cwmpasu'r cyfnodau a arferai gael eu galw'n Flynyddoedd Cynnar (o 3 i 5 oed) a Chyfnod Allweddol 1 (o 5 i 7 oed) y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn creu un cyfnod addysg ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed. Amlinellir hyn yn y ddogfen Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Dechreuodd y gwaith o gyflwyno fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn statudol ym mis Medi 2008 ar gyfer pob plentyn 3 i 4 oed mewn ysgolion a gynhelir ac mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Cafodd y gwaith hwnnw ei gwblhau yn ystod blwyddyn ysgol 2011/12. Cyflwynwyd y trefniadau asesu ac adrodd cysylltiedig ar sail statudol o ddechrau blwyddyn ysgol 2011/2012 ymlaen ar gyfer ysgolion.

### Newidiadau i Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen

Ym mis Hydref 2014, cafodd Meysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu diwygio fel eu bod wedi'u halinio â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y FfLlRh) ac fel eu bod nhw'n gofyn llawer mwy. Yn unol â hyn cafodd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu haddasu er mwyn eu halinio â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cafodd y Meysydd Dysgu diwygiedig eu cyflwyno ar sail statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Golyga hyn mai'r cohort o blant a ddechreuodd yn y Derbyn ym mis Medi 2015 fydd yr un cyntaf i gael ei asesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau ar eu newydd wedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018.

Rhaid i bob dysgwr sydd yn eu blwyddyn derfynol o ran y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 gael eu hasesu drwy asesiadau athrawon. Y penaethiaid sy'n gyfrifol am adrodd canlyniadau ar gyfer pob dysgwr ar gofrestr yr ysgol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai; sef yr hyn a elwir yn 'ddyddiad cofrestru penodedig'. Yn 2019, y dyddiad penodedig oedd 14 Mai. Gallwch weld y trefniadau asesu statudol ar gyfer blwyddyn ysgol.

#### Asesiadau dechreuol

Ers 2016, mae plant yng Nghymru wedi'u hasesu drwy Broffil y Cyfnod Sylfaen, yn ystod eu chwe wythnos gyntaf ar ôl dechrau mewn ysgol gynradd (Dosbarth Derbyn). Defnyddir yr asesiadau hyn i bennu cam datblygu a diddordebau'r plentyn yn ôl Proffil a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Cynhelir y rhan fwyaf o asesiadau pan fydd y plentyn yn cyrraedd dosbarth derbyn yn 4 oed, er bod ysgolion yn cael eu hannog i asesu'r plentyn wrth iddynt fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen, pa bynnag oedran cynharach a allai fod.

Meysydd Dysgu gorfodol y Cyfnod Sylfaen yw:

- Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg)
- Datblygiad mathemategol

Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 mae pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru wedi'u rhannu'n ddau gategori, sef pynciau craidd a phynciau di-graidd. Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, y pynciau craidd yw:

- Saesneg
- Cymraeg iaith gyntaf

- Mathemateg
- Gwyddoniaeth

Y pynciau di-graidd yw:

- Celf a dylunio
- Dylunio a thechnoleg
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- Ieithoedd tramor modern
- Cerddoriaeth
- Addysg gorfforol
- Cymraeg ail iaith

## Rhaglen ddilysu allanol ar gyfer asesiadau gan athrawon

Ar 18 Mai 2015, cyflwynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ar "Sicrhau dibynadwyedd a chysondeb o ran Asesiadau Athrawon yng Nghymru: Rhaglen Wirio Allanol". O 2016 ymlaen, mae'n bosibl y gwnaiff y manylrwydd gwell ym maes asesiadau athrawon effeithio ar Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a ddyfernir. Mae'r rhaglen ddilysu allanol eisoes wedi dod i ben.

## Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2014 gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Athro Graham Donaldson gynnal adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru – o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, gwnaed 68 o argymhellion eang gan yr Athro Donaldson i wella'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Bydd yr adolygiad annibynnol hwnnw'n cael effaith sylweddol ar drefniadau asesu ac ar yr ystadegau swyddogol a gyhoeddir.

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

## Cyhoeddiadau cysylltiedig

Cafodd dogfen debyg ei chyhoeddi ar 7 Awst 2019 a oedd yn ymwneud â phynciau di-graidd yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2, sef 'Asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol o'r pynciau di-graidd 2019'. Yn ychwanegol, fe fydd datganiad ystadegol ar brofion cenedlaethol ei gyhoeddi ar 28 Awst 2019, sef 'Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, 2019'.

## Ffynhonnell y data

Mae Casglu Data Cenedlaethol (NDC) yn casglu data yn electronig ar asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Roedd NDC hefyd yn cynnwys casgliad o ganlyniadau Profion Darllen Cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2013. Mae'r ysgolion yn anfon data i Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru drwy eu Hawdurdod Lleol.

Crynodeb o broses NDC ar gyfer 2019, gan gynnwys amserlenni a threfniadau adrodd

## Diffiniadau

### Cwmpas

Bydd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn 4, 7, 11 neu'n 14 oed ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn y drefn honno. Mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt yn hŷn neu'n iau, a bydd rhai'n cael eu haddysgu mewn dosbarth lle bo'r rhan fwyaf o'r dysgwyr o wahanol oedrannau. Ar gyfer pob Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol, rhaid i ddysgwyr gael eu hasesu'n statudol (hynny yw, rhaid iddynt gael asesiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol gan athro/athrawes) unwaith yn unig.

### Y lefelau disgwyliedig

Disgwylir yn gyffredinol y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr 7 oed yn cyflawni deilliant 5 ym mhob maes dysgu. Yn yr un modd, bydd dysgwyr 11 oed yn cyflawni lefel 4 ym mhob pwnc, a bydd dysgwyr 14 oed yn cyflawni lefel 5.

**Cyfnod Sylfaen:** Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen** (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf y deilliant disgwyliedig mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Gymraeg, **neu** Sgiliau Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu yn Saesneg, Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, a Datblygiad Mathemategol gyda'i gilydd.

**Cyfnodau Allweddol 2 a 3:** mae'r **Dangosydd Pynciau Craidd** ( DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig  mewn Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

**Cyfnodau Sylfaen ac Allweddol 2 a 3:** Mae ‘D’ yn cynrychioli'r disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan adrannau 113–116 o Ddeddf Addysg 2002, neu ddisgyblion nad oedd modd i'r athrawon eu hasesu. Mae ‘N' yn cynrychioli'r disgyblion hynny nad oedd lefel wedi'i dyfarnu iddynt am resymau heblaw datgymhwyso.

**Cyfnodau Allweddol 2 a 3:** Yn 2010, tynnwyd lefel ‘W’ (gweithio tuag at lefel 1), a'i disodli gan dri deilliant dilys newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 - Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (NCO) 1, 2 a 3. Mae'r lefelau newydd hyn wedi'u cyflwyno i ddisgrifio'r cyrhaeddiad sy'n is na lefel 1. At ddibenion cyhoeddi, mae'r tri deilliant hyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd a'u henwi'n 'NCO 1, 2 a 3'.

**Cyfnod Sylfaen:** Mae W (gweithio tuag at ddeilliant 1) yn ddeilliant dilys ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y lefelau ym mhob Cyfnod Allweddol (gan gynnwys codau 'D' ac 'N') yn y ddogfen Casglu Data Cenedlaethol a threfniadau adrodd 2018/19.

### Talgrynnu a symbolau

Mewn tablau, lle y mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r digid terfynol agosaf, gall fod anghysondeb ymddangosiadol rhwng yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm a ddangosir.

Mae'r symbolau canlynol wedi'u defnyddio drwy'r cyhoeddiad:

- \- canrannau sy'n is na 0.05 ond nid sero.
- . amherthnasol
- .. ddim ar gael
- ~ ddim ar gael eto
- * data na ellir eu rhoi am resymau sy'n ymwneud â chyfrinachedd

*Mae meintiau'r cohort wedi'u disodli â * pan fo llai na 5 ond mwy na sero o ddisgyblion yn y categori.*

- I gynorthwyo gydag ymchwil cyraeddiadau addysg.

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o wybodaeth am y canlyniadau hyn yn erbyn pum dimensiwn ansawdd: Perthnasedd; Cywirdeb; Amseroldeb a Phrydlondeb; Hygyrchedd ac Eglurdeb; a Chyfatebolrwydd. Mae hefyd yn cynnwys materion penodol sy'n ymwneud ag ansawdd data 2018, ac yn disgrifio'r dull rheoli ansawdd sy'n berthnasol i'r gwaith yn y maes hwn.

### Perthnasedd

Caiff yr ystadegau eu defnyddio gan swyddogion yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi i fonitro tueddiadau addysgol, ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi pellach o'r data sylfaenol. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru;
- Adrannau eraill y Llywodraeth;
- Y gymuned ymchwil;
- Ysgolion, Awdurdodau Lleol ac ysgolion;
- Estyn;
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Mae'r ystadegau hyn yn cael eu defnyddio mewn sawl ffordd. Dyma rai enghreifftiau:

- Cefndir cyffredinol ac ymchwil;
- I'w cynnwys mewn adroddiadau a bwletinau;
- Cyngor i Weinidogion;

- Cynnig gwybodaeth sy'n sail i'r broses o wneud penderfyniadau ym maes polisi addysg yng Nghymru, gan gynnwys ad-drefnu ysgolion;
- Datblygu'r system gategoreiddio genedlaethol i Gymru;
- Maes addysg Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- I ategu gwaith ymchwil ym maes cyrhaeddiad addysgol.

## Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael eu dilysu cyn cyhoeddi'r tablau. Os bydd unrhyw anomaleddau yn y data o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru yn herio ysgolion ac Awdurdodau Lleol ynglŷn â'r anomaleddau hynny yn y data. Mae'r data terfynol yn cael eu cymeradwyo gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol bob blwyddyn. Mae'r data'n cael eu cynnwys mewn taenlen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi – system ar-lein ddiogel i drosglwyddo data a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.  Fel rhan o'r broses, ceir nifer o gamau awtomatig i ddilysu a gwirio'r synnwyr, er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Roedd DEWi ar gael i lanlwytho ffeiliau ar 14 Mai 2019. Gofynnwyd i ysgolion gyflwyno data ar gyfer pob disgybl ar gofrestr yr ysgol ar 8 Mai yn barod ar gyfer Profion Darllen Cenedlaethol perthnasol y Cyfnod Sylfaen/Cyfnodau Allweddol. Yna, gofynnwyd i ysgolion ac Awdurdodau Lleol ddilysu eu data o fewn y cyfnod dilysu, a ddaeth i ben ar 5 Gorffennaf 2019.

## Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod am y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn ymlaen llaw, ac wedyn fe gaiff ei gyhoeddi yn adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru.  I gyd-fynd â'r Datganiad ceir tablau manylach ar StatsCymru, sef gwasanaeth di-dâl sy'n caniatáu i ymwelwyr weld, defnyddio, creu a lawrlwytho data.

## Cyfatebolrwydd

2012 oedd y flwyddyn gyntaf inni ofyn i bob ysgol gynradd ddarparu canlyniadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r newidiadau i Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion a'u haseswyd yn 2018 a hwyrach yn golygu nad yw canlyniadau 2018 yn gymharol i flynyddoedd blaenorol.

Ni chyflwynwyd data gan ysgolion annibynnol yn 2018. Roedd un ysgol annibynnol wedi cyflwyno data ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn 2012 - ac roedd yr un ysgol hefyd wedi darparu canlyniadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 rhwng 2007 a 2010. Ni fydd data ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys mewn canlyniadau Awdurdodau Lleol. Ond fe fydd y data'n ymddangos yn y canlyniadau cyffredinol ar gyfer Cymru.

Adroddodd un awdurdod fod newid yn yr ymagwedd tuag at ddilyn y cwricwlwm Cymraeg wedi arwain at asesu nifer uwch o ddisgyblion yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ac mae'n bosib fod hyn wedi cael effaith ar y ffigurau 2018 ac ymlaen.

Ni ellir cymharu data Cymru â gwledydd eraill y DU. Mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn cyhoeddi datganiadau ar wahân ar Gam Allweddol 1 a 2, er nad ydynt bellach yn cyhoeddi datganiadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Yn y datganiadau ystadegol ar gyfer Lloegr (Saesneg yn unig), cyhoeddir ffigurau ar asesiadau athrawon, yn ogystal â phrofion swyddogol.

Ystadegau Addsyg yr Alban

Ystadegau Addysg Gogledd Iwerddon

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus. Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Gorffennaf 2010 yn dilyn asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer (Saesneg yn unig).

Ers yr adolygiad diweddaraf gan Swyddfa ar gyfer Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Wedi'i ychwanegu at a gwella'r wybodaeth am ddimensiynau ansawdd a disgrifio cysylltiadau â pholisi.
- Darparu mwy o ddata ar StatsCymru
- gwella'r fformat i gynnwys siartiau sy'n rhoi mewnwelediad pellach i rywfaint o'r wybodaeth allweddol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys un o'r dangosyddion cenedlaethol sef dangosydd cenedlaethol 6, mesur datblygiad plant ifanc, a bydd cynnydd yn cael ei olrhain gan ddefnyddio maes dysgu personol, datblygiad cymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn Adroddiad Llesiant Cymru

Gwybodaeth bellach am Ddeddfell Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: https://llyw.cymru/cyflawniad-academaidd-disgyblion-4-i-14-oed-mewn-pynciau-craidd-2019

## Diweddariad nesaf

Fe fydd data ar gyfer 2020 yn cael ei gyhoeddi yn Awst 2020 (dros dro)

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.